**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1980 (Cy. 141 )

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2000

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae "iaith dramor fodern" yn un o bynciau sylfaen y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru mewn perthynas â'r trydydd cyfnod allweddol. Mae'n ofynnol i'r ieithoedd hynny sydd i gyfrif fel ieithoedd modern at ddibenion y Cwricwlwm Cenedlaethol gael eu pennu mewn Gorchymyn a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol, neu, fel arall, caiff Gorchymyn o'r fath ddarparu bod unrhyw iaith dramor fodern yn iaith dramor fodern at y dibenion hynny.

Ieithoedd swyddogol y Gymuned Ewropeaidd yw'r ieithoedd a bennir gan y Gorchymyn ym mhob achos. Yn ychwanegol, yn achos ysgol lle cynigir cyfle i ddisgyblion y trydydd cyfnod allweddol astudio o leiaf un o ieithoedd swyddogol y Gymuned Ewropeaidd, mae'r Gorchymyn yn darparu bod "unrhyw" iaith dramor fodern yn iaith dramor fodern at ddibenion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn hyn o beth, mae'n wahanol i Orchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) 1991, y mae'n ei ddisodli, yn yr ystyr mai dim ond yr ieithoedd tramor modern hynny a restrwyd ynddo a bennwyd gan y Gorchymyn cynharach tra bod y Gorchymyn presennol yn pennu unrhyw iaith dramor fodern.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1980 (W. 141 )

# EDUCATION, WALES

## The Education (National Curriculum) (Modern Foreign Languages) (Wales) Order 2000

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

A "modern foreign language" is a National Curriculum foundation subject in Wales in relation to the third key stage. Those languages which are to count as modern languages for the purposes of the National Curriculum are required to be specified in an Order made by the National Assembly, or, alternatively, such an Order may provide that any modern foreign language is a modern foreign language for such purposes.

The languages specified by the Order are, in all cases, the official languages of the European Community. In addition, in the case of a school at which third key stage pupils are offered the opportunity of studying at least one official language of the European Community, the Order provides that "any" modern foreign language is a modern foreign language for the purposes of the National Curriculum. In this respect, it differs from the Education (National Curriculum) (Modern Foreign Languages) Order 1991 which it replaces in that the earlier Order specified only those modern foreign languages listed in the Order whereas the present Order specifies any modern foreign language.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1980 (Cy. 141 )

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2000

*Wedi'i wneud* *24 Gorffennaf 2000*

*Yn dod i rym* *1 Awst 2000*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 354(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996**(a)**, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**1.**-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 1 Awst 2000.

(2) Yn y Gorchymyn hwn -

mae cyfeiriadau at y trydydd cyfnod allweddol yn gyfeiriadau at y cyfnod a nodir yn adran 355(1)(c) o Ddeddf Addysg 1996; ac

mae cyfeiriadau at ieithoedd swyddogol y Gymuned Ewropeaidd yn gyfeiriadau at ieithoedd a bennwyd yn ieithoedd swyddogol sefydliadau'r Gymuned Ewropeaidd gan Erthygl 1 o Reoliad Rhif 1 Cyngor yr EEC dyddiedig Ebrill 15 1958**(b)**.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

**2.** Diddymir drwy hyn Orchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) 1991**(c)** a Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Diwygio) 1994**(d)** mewn perthynas â Chymru.

(a) 1996 p.56. Diwygir adran 354 gan Orchymyn Pwnc Sylfaen (Diwygio) 2000 (O.S. 2000/1146) sy'n gymwys i Loegr a chan Orchymyn Pwnc Sylfaen (Diwygio) (Cymru) 2000 (O.S. 2000/1882 (Cy.192)) sy'n gymwys i Gymru.

(b) O.J. 1958, 385; DJ 1952-58, 59. Diwygiwyd Erthygl 1 gan Ddeddfau Ymuno un ar ôl y llall. Ar ddyddiad y Gorchymyn hwn Almaeneg, Daneg, Eidaleg, Ffinneg, Ffrangeg, Groeg, Gwyddeleg, Iseldireg, Portiwgaleg, Saesneg, Sbaeneg a Swedeg yw'r ieithoedd swyddogol.

(c) O.S. 1991/2567. Mae'r offeryn hwn wedi'i ddiwygio mewn perthynas â Lloegr yn unig gan O.S. 1999/2214.

(d) O.S. 1994/1818.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1980 (W. 141 )

# EDUCATION, WALES

## The Education (National Curriculum) (Modern Foreign Languages) (Wales) Order 2000

*Made* *24th July 2000*

*Coming into force* *1st August 2000*

In exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by section 354(4) and (5) of the Education Act 1996**(a)**, the National Assembly for Wales makes the following Order:

**1.**-(1) This Order may be cited as the Education (National Curriculum) (Modern Foreign Languages) (Wales) Order 2000 and shall come into force on 1st August 2000.

(2) In this Order -

references to the third key stage are references to the period set out in section 355(1)(c) of the Education Act 1996; and

references to official languages of the European Community are to languages specified as official languages of the institutions of the European Community by Article 1 of EEC Council Regulation No.1 of April 15 1958**(b)**.

(3) This Order applies to Wales.

**2.** The Education (National Curriculum) (Modern Foreign Languages) Order 1991**(c)** and the Education (National Curriculum) (Modern Foreign Languages) (Amendment) Order 1994**(d)** are hereby revoked in relation to Wales.

(a) 1996 c.56. Section 354 is amended by the Foundation Subject (Amendment) Order 2000 (S.I. 2000/1146) which applies to England and by the Foundation Subject (Amendment) (Wales) Order 2000 (S.I. 2000/1882 (W.192)) which applies to Wales.

(b) O.J. 1958, 385; DJ 1952-58, 59. Article 1 was amended by successive Acts of Accession. At the date of this Order the official languages are Danish, Dutch, English, Finnish, French, German, Greek, Irish, Italian, Portuguese, Spanish and Swedish.

(c) S.I. 1991/2567. This instrument is amended in relation to England only by S.I. 1999/2214.

(d) S.I. 1994/1818.

**3**.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), at ddibenion adran 354 o Ddeddf Addysg 1996 (y pynciau craidd a phynciau sylfaen eraill) ystyr "iaith dramor fodern" yw unrhyw iaith dramor fodern.

(2) Nid yw iaith dramor fodern nad yw'n un o ieithoedd swyddogol y Gymuned Ewropeaidd yn "iaith dramor fodern" at ddibenion adran 354 o Ddeddf Addysg 1996 oni chaiff yr amod ym mharagraff (3) ei fodloni.

(3) Yr amod hwnnw yw bod yr ysgol lle mae'r iaith yn cael ei haddysgu yn cynnig cyfle i bob disgybl yn y trydydd cyfnod allweddol y mae'n ofynnol iddynt astudio iaith dramor fodern fel pwnc sylfaen astudio un neu ragor o ieithoedd swyddogol y Gymuned Ewropeaidd fel pwnc sylfaen.

**4.-**(1) Caiff unrhyw gwestiwn ynghylch a yw iaith dramor benodol yn iaith dramor fodern at ddibenion adran 354 o Ddeddf Addysg 1996 ei benderfynu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(2) Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud penderfyniad o dan baragraff (1) yn dilyn cais gan unrhyw berson neu ar ei ysgogiad ei hun.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(a)**

24 Gorffennaf 2000

Y Dirprwy Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(a) 1998 p.38.

**3.-**(1) Subject to paragraphs (2) and (3), for the purposes of section 354 of the Education Act 1996 (the core subjects and other foundation subjects) "modern foreign language" means any modern foreign language.

(2) A modern foreign language which is not an official language of the European Community is not a "modern foreign language" for the purposes of section 354 of the Education Act 1996 unless the condition in paragraph (3) is satisfied.

(3) That condition is that the school at which the language is taught offers all pupils in the third key stage in respect of whom there is a requirement to study a modern foreign language as a foundation subject the opportunity of studying one or more of the official languages of the European Community as a foundation subject.

**4.-**(1) Any question whether a particular foreign language is a modern foreign language for the purposes of section 354 of the Education Act 1996 shall be determined by the National Assembly for Wales.

(2) The National Assembly for Wales may make a determination under paragraph (1) following an application by any person or on its own initiative.

Signed on behalf of the Assembly under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(a)**

24th July 2000

*Jane Davidson*

The Deputy Presiding Officer, of the National Assembly for Wales

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

**2000 Rhif 1980 (Cy. 141 )**

**ADDYSG, CYMRU**

Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2000

STATUTORY INSTRUMENTS

**2000 No. 1980 (W. 141 )**

**EDUCATION, WALES**

The Education (National Curriculum) (Modern Foreign Languages) (Wales) Order 2000

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090110-X

9 780110 901107

**£1.50**

W/28/2000 08/00 ON